




ADRODDIAD BLYNYDDOL

2019

CYSYLLTWCH Â NI

 Hospis Tŷ'r Eos,
Ffordd Caer, Wrecsam LL11 2SJ

 01978 316800

 info@nightingalehouse.co.uk

 nightingalehouse.co.uk

 [nightingalehouse](https://www.facebook.com/nightingalehouse)

 [nightingalehh](https://twitter.com/nightingalehh)

EIN DALGYLCH

Mae ein siopau yn rhan hanfodol o'r gymuned leol ac maent yn sbarduno ymdrechion llwyddiannus i godi arian. Mae gennym ni siopau yn Wrecsam, yr Wyddgrug, Cefn Mawr, Rhosllannerchrugog, yr Eglwys Wen, Ellesmere a Chroesoswallt.

Bellach, Grwpiau Cynnal yw wyneb ein hosbis yn y gymuned, ac maent yn gweithredu fel llysgenhadon i'n gwaith. Rydym ni'n ffodus fod gennym ni gynrychiolwyr yn yr ardaloedd hyn: y Bala, Corwen, Hanmer, Lavister, Coed Llai, Llangollen, yr Wyddgrug, Rhosllannerchrugog a Wrecsam.

DATGANIAD CENHADAETH

Darparu gwasanaethau ar gyfer unigolion a'u teuluoedd sy'n byw yng Ngogledd Ddwyrain Cymru ac ardaloedd y Gororau, sy'n byw gyda diagnosis o salwch sy'n cyfyngu ar hyd bywyd, a darparu'r gwasanaethau hynny mewn lleoliad o'u dewis hwy os gellir gwneud hynny, ac o fewn yr adnoddau sydd ar gael i Hospis Tŷ'r Eos.

Yn dilyn asesiad o anghenion corfforol, cymdeithasol ac ysbrydol, caiff gwasanaethau eu darparu gan dîm amlddisgyblaethol sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n gymwys i ddiwallu anghenion bob claf, yn cynnwys y sawl sydd ag anghenion arbenigol cymhleth.

CYFARWYDDWYR AC AELODAU O'R PWYLLGOR YMDDIRIEDOLWYR

Mr Medwyn Edwards (Llywydd)
Mrs Eluned Griffiths (Cadeirydd)
Dr N Braid (Is-Cadeirydd)
Mrs A Brebner
Mr R Cole
Dr J Duguid
Mr G Greasley
His Honour P Hughes
Mrs J Lowe
Mr A Morse
Mrs C Varley



CROESO

Unwaith yn rhagor, rwy'n falch iawn o gael cyfle i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol. Mae'n gyfle i gnoi cil ynghylch llwyddiannau 2019 ar draws y sefydliad. Mae ysgrifennu adroddiad 2019 yn nghanol pandemig sydd wedi cael ac a wnaiff gael effaith mor niweidiol ar ddyfodol yr hospis yn 2020 yn anodd, oherwydd cyflawnwyd cymaint y flwyddyn ddiwethaf. Mae 2019 wedi bod yn flwyddyn ariannol lwyddiannus hefyd.

Er fod ein cyllid statudol yn parhau i ostwng mewn termau real, fe wnaeth y strategaeth Cynhyrchu Incwm newydd a strwythur newydd y tîm sicrhau cynnydd derbynol mewn incwm. Mae hyn, ynghyd â'r ffaith fod gwirfoddolwyr, grwpiau cymorth, busnesau lleol ac unigolion yn darparu cymorth amrywiol ac arloesol, wedi sicrhau ein bod ni wedi gorffen y flwyddyn mewn sefyllfa gref, ar gwaethaf amgylchedd ariannol sy'n parhau i fod yn heriol. Mae ein dyled i'n cymuned yn fawr.

Cychwynnodd Cam 1 y rhaglen moderneiddio a chwblhawyd hynny ag ychydig iawn o darfu. Rydym ni'n ddiolchgar i Read Construction am eu dull proffesiynol a sensitif o gyflawni'r gwaith. Mae'r cyfleusterau wedi'u gwella'n sylweddol i'n cleifion a'u teuluoedd ac i'n gwirfoddolwyr a'n staff. Cychwynnodd Cam 2 ym mis Tachwedd 2019 a daeth i ben yng Ngorffennaf 2020. Mae'r moderneiddio yn sicrhau fod Tŷ'r Eos mewn sefyllfa well i ddarparu gofal lliniarol, yn yr Hospis ac yn y gymuned, nawr a hyd y gellir rhagweld.

Mae'r prosiect llwyddiannus ynghylch Methiant y Galon y gwnes i gyfeirio ato yn adroddiad y llynedd wedi arwain at sefydlu Clinig Methiant y Galon, sydd wedi bod yn hynod o lesol i gleifion, trwy sicrhau gollyngdod, llesiant a chymorth.

Fe wnes i grybwyll hefyd yn 2018 y byddai'n rhaid i ni wneud cynlluniau a dewisiadau rhagweithiol at y dyfodol er mwyn gallu goroesi. Eleni, sefydlwyd dau weithgor, yn cynnwys ymddiriedolwyr ac aelodau o'r tîm gweithredol; bwriad un oedd adolygu anghenion newidiol mewn perthynas â gofal ar gyfer cleifion mewnol a dulliau o gyflawni hynny, a bwriad y llall oedd adolygu cangen manwerthu'r busnes. Mae'r strategaethau sydd wedi deillio o hynny wrthi'n cael eu gweithredu. I'n galluogi ni i ateb y galwadau newidiol a chynyddol am ein gwasanaethau, rydym ni wedi gorfod addasu a newid; heb wneud hynny, ni fuasem ni'n gallu darparu'r gofal lliniarol gorau un i'n cymuned nac yn gallu ariannu'r ddarpariaeth honno.

Roedd hospisau yn dal i wynebu cyfnod anodd o ganlyniad i boblogaeth yn heneiddio, newidiadau mewn gwasanaethau iechyd a heriau economaidd, cyn effaith Covid-19. Eleni, bu'n rhaid i rai hospisau gau. Nid ydym ni wedi profi sefyllfa o'r fath o'r blaen, ond rwy'n hyderus y gwnaiff cymorth y gymuned, llywodraethu da a pharhad ymroddiad staff ac ymddiriedolwyr sicrhau y gwnaiff Tŷ'r Eos oroesi.

Hoffai'r Bwrdd Ymddiriedolwyr ac fe hoffwn innau ddiolch i'n holl staff a'n gwirfoddolwyr am eu gwaith caled a'u hymroddiad, a diolch i'n cymuned am ei chymorth eithriadol. Mae'r cydweithio hwn wedi sicrhau fod 2019 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus i'r Hosbis, gan alluogi i'n cleifion a'u teuluoedd gael y gofal gorau posibl.

Unwaith yn rhagor, hoffwn ddiolch i fy nghyd-ymddiriedolwyr am eu cymorth, eu hymroddiad a'u harbenigedd diddiwedd.

Eluned Griffiths **Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**



MAE STORI AM FYWYD GO IAWN WRTH WRAIDD YR HOLL YSTADEGAU

DARPERIR EIN GOFAL GAN TÎM AMLDDISGYBLAETHOL – YN CYNWYS NYRSYS, MEDDYGON, GWEITHWYR CYMDEITHASOL, FFISIOTHERAPYDDION, CAPLANIAID, THERAPYDDION CYFLENWOL, GWIRFODDOLWYR AC ERAILL – **OLL YN CYDWEITHIO I GYNORTHWYO UNIGOLION A’U HANWYLIAID.**

Mae’r isod yn amlygu rhai o’r mathau o weithgareddau y gwnaeth tîm Tŷ’r Eos eu darparu yn ystod 2019:



GWASANAETHAU DYDD

YN 2019, CAFODD EIN HOSPIS 881 O YMWELIADAU GAN GLEIFION GOFAL DYDD, I HELPŪ CLEIFION I ADDASU I AMGYLCHIADAU EU SALWCH A GWELLA EU HUNANHYDER.

Yn 2019, fe wnaethom ni gynnal rhaglen foderneiddio sylweddol i wella cyfleusterau ein Gwasanaethau Dydd, bron iawn 25 mlynedd ers adeiladu'r hospis yn y lle cyntaf. Diben y moderneiddio oedd caniatáu i ni ofalu am ragor o gleifion sy'n byw gyda salwch sy'n cyfyngu ar hyd bywyd, darparu cymorth i ragor o deuluoedd a sicrhau y caiff y gofal hwn ei ddarparu yn yr amgylchedd gorau posibl. Mae'r moderneiddio hwn wedi gweddnewid adeilad yr hospis, a bellach, mae gan yr adeilad wedd newydd, golau a modern, ac yn bwysicach na dim, mae'n cynnig amgylchedd croesawgar i'r bobl rydym ni'n gofalu amdanynt.

Gall pobl ddefnyddio ein Gwasanaethau Gofal Dydd os oes ganddynt gyflwr sy'n cyfyngu ar hyd bywyd ac os ystyrir fod ein gwasanaethau yn ymyriad priodol i'w cyflwr. Gallant gael eu hatgyfeirio gan feddyg teulu, nyrs ardal, nyrs arbenigol, ffisiotherapydd cymunedol neu unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal. Fel arall, gallant ddefnyddio ein gwasanaethau trwy gysylltu â ni'n uniongyrchol ar 01978 316800, a gallwn ni roi sylw i'r gwaith papur manwl sy'n ofynnol trwy gysylltu â nyrsys ardal a/neu feddygfeydd wedi'r alwad.

Yn dilyn atgyfeiriad, byddwn yn cysylltu er mwyn cynnig asesiad cychwynnol gydag aelod o'n tîm arbenigol. Yn ystod yr asesiad, bydd un o'n harbenigwyr yn treulio amser gyda'r unigolyn yn trafod sut mae'r salwch yn effeithio arno neu arni, a sut mae'n effeithio ar ei deulu neu ei theulu.

Bydd yr apwyntiad asesu cychwynnol yn para oddeutu awr efallai, a bydd hynny'n rhoi cyfle i'n tîm gofal lliniarol arbenigol ddefnyddio eu gwybodaeth yn effeithiol i sicrhau ein bod ni'n darparu gofal rhagorol i bob claf. Rydym ni'n gallu cynnig yr amser ychwanegol sy'n ofynnol i ddiwallu eu hanghenion ac anghenion eu teuluoedd.

“ Mae ein holl staff yn ofalus iawn ynghylch lefel y gofal maent yn ei ddarparu i bob claf. Rydym ni'n ffodus fod ganddynt yr amser i sicrhau ein bod ni'n 'troi pob carreg'. ”

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau a sut gallwch chi ddefnyddio'r gwasanaethau hynny, cysylltwch â ni trwy ffonio **01978 316800** neu ymwelwch â'r hospis rhwng 9yb a 4yh o ddydd Llun i ddydd Gwener.

PA WASANAETHAU RYDYM NI'N EU CYNNIG?

- **FFISIO THERAPI**
Bydd ein ffisiotherapyddion yn gweithredu mewn modd adferol sy'n canolbwyntio ar anghenion unigolion, i'w galluogi i gynnal neu adennill cryfder, symudiad, dygnwch ac annibyniaeth ymarferol.
- **HYDROTHERAPI**
Mae'r dŵr cynnes a'r hynofedd yn helpu i annog cylchrediad y gwaed, ac mae'n sicrhau fod ymarfer corff yn haws ac yn fwy effeithiol efallai. Gall helpu ag adsefydlu mewn perthynas â rheoli poen a symptomau, ymlacio a lliniaru poen yn y cyhyrau.
- **THERAPIAU CYFLENWOL**
Bydd ein therapyddion yn ceisio helpu i adfer llesiant corfforol, meddyliol ac ysbrydol, a lleihau symptomau a lliniaru poen ar yr un pryd. Mae'r mathau o therapïau cyflenwol yn cynnwys Homeopathi, Reiki, Aciwbigo, Therapi Tylino, Aromatherapi ac Adweitheg.
- **THERAPIAU SEICOLEGOL**
Rydym ni wedi datblygu ystod eang o wasanaethau i helpu pobl yn ystod cyfnod a all fod yn heriol iawn. Gall ein tîm cynorthwyo teuluoedd helpu cleifion i nodi pan fydd angen rhywfaint o gymorth ychwanegol neu wahanol.
- **YMWYBYDDIAETH OFALGAR**
Gall ymarfer Ymwybyddiaeth Ofalgar fod yn effeithiol i gleifion ac i ofalwyr, yn cynnwys gwirfoddolwyr. Gall helpu pobl i ymdopi â phoen a thralod emosiynol a chorfforol.
- **MONITRO A SEFYDLOGI SYMPTOMAU**
Nod ein tîm clinigol yw sicrhau'r ansawdd bywyd gorau i gleifion. Gall hyn gynnwys rheoli poen a symptomau eraill, er enghraifft, pwys, cyfogi, rhwymedd a diffyg anadl.



Mae'r moderneiddio yn caniatáu hyblygrwydd o ran lle, gan greu manau mawr pan fydd angen hynny, ac ystafelloedd golau sydd ag awyriad da ar gyfer cleifion a theuluoedd hefyd.

MAE STORI AM FYWYD GO IAWN WRTH WRAIDD YR HOLL YSTADEGAU

MAE LINDA YN ENGHRAIFFT WYCH O'R HYN RYDYM NI'N EI WNEUD ORAU

Daeth Linda i'n hospis i reoli ei symptomau rhwng ei thriniaethau cemotherapi yn yr ysbyty. Daeth ei thaith yn enghraifft wych o sut mae Tŷ'r Eos yn helpu cleifion sydd â salwch sy'n cyfyngu ar hyd eu hoes pan fydd arnynt angen hynny fwyaf.

Roedd Linda, sy'n fam i un o Fwcle yn Sir y Fflint, eisoes yn cael triniaeth mewn ysbyty ar gyfer canser eilaidd, ac ar ôl cychwyn cael trafferth â lymffoedema, fe wnaeth hi benderfynu dod yn glaf mewnol yn yr ysbyty am bythefnos er mwyn rheoli ei symptomau. Ar yr un pryd, roedd Linda yn cael triniaeth yn Uned Seren Wib yn Ysbyty Maelor.

Mae Linda yn ymgorffori gwerthoedd ein hospis – amgylchedd cadarnhaol a lleddfol ble mae gofal ar gael am ddim i'r sawl y mae arnynt angen hynny, sy'n byw yn ein dalgylch. Fe wnaeth ei phrofiad o Dŷ'r Eos ei hysbrydoli hi i gynnal ymgyrch codi arian er budd yr hospis ac uned Seren Wib. Hyd yn hyn, mae her anhygoel Linda wedi codi dros £4800.

Roedd Linda wedi herio ei hun i wneud taith gerdded noddedig, ac fe wnaeth hi ragori ar ei thargedau codi arian yn wythnosol, ar waethaf gorfod newid ei her yn unol â chyfarwyddyd meddygon.

Roedd hi wedi bwriadu cerdded 91 cam – hyd ei gardd – ugain gwaith, ond fe wnaeth newid yn ei chemotherapi olygu nad oedd hi bellach yn ddigon cryf i allu cerdded cymaint. Yn lle hynny, fe wnaeth Linda benderfynu cael ei noddi i eillio ei gwallt yn ei hystafell yn yr hospis, yn gwisgo gwisg Wonder Woman, oherwydd roedd y meddygon wedi dweud wrthi hi y byddai hi'n debygol o gollu ei gwallt yn dilyn triniaeth.

Cafodd Linda ddiagnosis o ganser y fron yn 2012 a chanser eilaidd y fron yn 2019 oedd wedi ymledu i'w chlun ac i asgwrn ei chefn. Ym mis Ebrill, cafodd hi wybod fod y canser wedi ymledu i waelod ei phenglog.



Linda yn ei hystafell cyn cael eillio ei gwallt i godi arian



Mae Linda a'i mab Nathan ill dau yn frwdfrydig ynghylch pêl-droed; yn y llun hwn, mae'r ddau ohonynt yn rhannu eu brwdfrydedd ynghylch y gamp yn ystod gêm yn yr Wyddgrug. Yn ôl Linda, Nathan yw ei 'anrheg gan Dduw', ar ôl iddi hi gael gwybod mai dim ond 5% oedd ei siawns o ddod yn feichiog ar ôl cael diagnosis o endometriosis yn 2006. Bum mis yn ddiweddarach, fe wnaeth hi ganfod ei bod hi'n feichiog.

Dywedodd hi: *“Mae’r gofal rydw i wedi’i gael ers y datblygiad diweddaraf hwn yn fy nhriniaeth canser wedi bod yn wych, ac rwy’n dymuno rhoi rhywbeth yn ôl i Dŷ’r Eos ac i uned Seren Wib.*

“Nid yw cerdded yn ôl a blaen ar hyd fy ngardd yn swnio’n llawer iawn ond byddai wedi bod yn ormod i mi ar hyn o bryd. Fe es i i’r ysbyty gan ddisgwyl y byddai’r meddygon yn dweud na fyddent yn rhoi rhagor o driniaethau i mi, ond pan gefais i wybod y byddwn i’n cael rhagor o gemotherapi, ni allwn i gredu hynny.

“Ar yr adeg hon, roeddwn i’n credu fod yn rhaid i mi roi rhywbeth yn ôl i’r bobl hynny sy’n fy helpu i. Mae cerdded noddedig yn amhosibl ac mae’n debyg y gwnaf i gollu fy ngwallt beth bynnag, felly penderfynais newid fy her i weithgaredd eillio gwallt elusennol.”

Mae gan Linda fab 12 oed o’r enw Nathan ac mae hi’n un o gynrychiolwyr rhieni Buckley Town Colts FC, ble mae Nathan yn aelod o’r tîm, ac yn ôl Linda, nid yw hi’n rhywun sydd ag agwedd ‘beth os’, ac mae hi’n gwneud y gorau o’i bywyd. “Wn i ddim faint o amser sydd gen i’n weddill, ond y 12 mlynedd rwyf i wedi’u treulio gyda Nathan yw’r cyfnod hapusaf i mi. Rwy’n benderfynol o barhau i frwydro am ragor o amser gyda fy mab.

“Mae Tŷ’r Eos yn lle arbennig dros ben. Penderfynais ddod yma i reoli fy lymffoedema yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty. Nid oes dim yn ormod i’r staff ac maent yn fodlon eistedd a gwrando arnaf i, hyd yn oed os ydynt yn meddwl fy mod i’n siarad lol. Byddant yn gwrando ar hanesion fy mywyd a sut ganwyd Nathan yn fabi gwrthiol i mi pan oeddwn i’n 43 mlwydd oed, ar ôl cael gwybod y byddwn i’n annhebygol o gael plant. Roeddwn i’n meddwl fod diwedd y mislif wedi cychwyn, ac yna, fe wnes i ganfod fy mod i’n feichiog ers wyth wythnos. Y straeon hyn a Nathan yw hanfod fy nghymeriad, a bydd tîm Tŷ’r Eos yn neilltuo amser i wrando arnaf i heb farnu.”

Dywedodd Cydlynnydd Digwyddiadau Her Tŷ’r Eos, Bethan Scott: *“Rydym ni’n credu fod awydd Linda i gwblhau’r her hynod o ddewr hon yn anhygoel. Rwyf i wedi darllen llawer o sylwadau gan gefnogwyr ar dudalen JustGiving Linda, ac mae’r geiriau ysbrydolg, dewr, cryf, anhygoel a chadarnhaol yn ymddangos yn aml. Diolch yn fawr iawn a bob lwc, oddi wrth bawb yn Hospis Tŷ’r Eos.”*

“ Rwy’n gobeithio y gwnaiff rhagor o bobl gyfrannu fel y gallaf i gynorthwyo’r timau meddygol sydd wedi helpu fy iechyd i wella yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf ac wedi rhoi ychydig bach mwy o amser i mi i’w dreulio gyda fy machgen hyfryd, fy arwr heb os. Rwyf i wrth fy modd o weld faint o arian sydd eisoes wedi’i godi, a hoffwn ddiolch o galon i bawb.”

- Linda, un o Gleifion Hospis Tŷ’r Eos




Linda yn ei gwisg Wonder Woman ar ôl cael eillio ei gwallt i godi arian.

A WYDDECH CHI?



Rydym ni’n rhedeg gwasanaeth derbyniadau uniongyrchol yn yr hospis. Nid oes angen i gleifion a’u teuluoedd gael atgyfeiriad gan feddyg i’n ffonio ni, oherwydd gallwn wneud y gwaith papur manwl gofynnol gyda nyrsys ardal a meddygfeydd ar ôl yr alwad.

Rydym ni’n canfod fod hynny’n lleihau straen i gleifion a’u teuluoedd, sydd eisoes o dan straen enfawr. I gysylltu â ni ynghylch derbyniad uniongyrchol, ffoniwch **01978 316800**.


YR YSTADEGAU SYDD WRTH WRAIDD Y STORI



INCWM YR HOSPIS £3.271M



GWARIANT YR HOSPIS £3.089M



BETH ALLWCH CHI EI WNEUD?

CYFRANNU NWDYDDAU

Bydd ein siopau elusenol bob amser yn chwilio am stoc newydd, yn cynnwys dillad, trugareddau neu ddodrefn. Yn 2019, fe wnaeth ein siopau godi elw o £243,164 (heb gynnwys Rhodd Cymorth) tuag at gynnal ein gwasanaethau i gleifion, ac fe wnaeth hynny ariannu'r hospis am 29 diwrnod.

Mae manylion llawn y cyfrifon cyfunol ar gael gan Dŷ'r Cwmnïau.

LOTERI'R HOPIS

Ymunwch â'n loteri am £1 yr wythnos yn unig a gwnewch wahaniaeth. Eleni, fe wnaeth ein loteri elw o £536,125, a defnyddiwyd pob ceiniog i gynnal ein gwasanaethau i gleifion, ac fe wnaeth hynny ariannu'r hospis am 63 diwrnod.